
1872 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

# Cymorth Ariannol a Gwobrau

Ysgoloriaethau a Bwrsariaethau ar gyfer myfyrwyr sy'n dechrau eu hastudiaethau yn 2019



THE TIMES THE SUNDAY TIMES
CANLLAW PRIFYSGOLION DA 2019
PRIFYSGOL Y FLWYDDYN AR GYFER ANSAWDD Y DYSGU

# Cyflwyniad

Gall astudio yn y brifysgol fod yn brofiad trawsnewidiol wrth i'ch dealltwriaeth o'ch pwnc ddyfnhau, ac wrth i chi wneud darganfyddiadau newydd a chwrdd â ffrindiau am oes. I nifer o fyfyrwyr, mae hefyd yn gyfnod o ddysgu byw'n annibynnol a rheoli cyllidebau.

Yn Aberystwyth rydym yn deall goblygiadau ariannol addysg uwch. Diolch i gefnogaeth hael cyn-fyfyrwyr a chyfeillion, rydym wedi gallu cynnig ysgoloriaethau ers 125 o flynyddoedd a mwy ac rydym yr un mor ymroddedig ag erioed i gefnogi ein myfyrwyr. Dyna'r rheswm dros roi pecyn hael o wobrau at ei gilydd a all eich helpu â chostau byw o ddydd i ddydd.

Nid ydym yn cyfyngu ar y nifer o wobrau y gallwch eu derbyn – gallwch ddal cynifer ag yr ydych yn gymwys ar eu cyfer. Golyga hyn y gallwch gyfuno amrywiaeth o wobrau i wneud eich pecyn ariannol yn fwy gwerthfawr.

Mae gennym amrywiaeth o ysgoloriaethau a bwrsariaethau i fodloni gofynion pawb – a'r newyddion da yw, yn wahanol i fenthyciad myfyriwr, nid oes raid i chi dalu'r arian yn ôl. Mae gwobrau ac ysgoloriaethau i wobrwyo rhagoriaeth academaidd, bwrsariaethau i gynorthwyo myfyrwyr o gartrefi incwm isel a chefndiroedd gadael gofal, gwobrau ar gyfer doniau chwaraeon a cherddorol, a chymhelliannau i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.

Darganfyddwch a allech chi fanteisio o un neu fwy o'n gwobrau. Darllenwch drwy'r llyfryn i gael rhagor o wybodaeth a chysylltwch os oes gennych unrhyw gwestiynau.

**Yr Athro Elizabeth Treasure**
**Is-Ganghellor**



# CYNNWYS


**Ysgoloriaethau Mynediad a Gwobrau Teilyngdod**
(cyfle i ennill hyd at £2,000 y flwyddyn a/neu gynnig diamod drwy sefyll 2 arholiad yn y mis lonawr cyn dechrau yn Aberystwyth) ... 4-13

**Ysgoloriaethau Rhagoriaeth Academaidd**
(£2,000 i ymgeiswyr sy'n rhagori yn eu hastudiaethau cyn dechrau yn y Brifysgol) ... 13

**Bwrsariaethau Rashid Domingo**
(£12,000 i ymgeiswyr o Gymru sy'n gwneud cais i astudio yn yr Adran Ffiseg neu IBERS) ... 14

**Ysgoloriaeth Emily Price**
(£500 ar gyfer ymgeiswyr benywaidd ar gyfer Mathemateg/Ffiseg) ... 14

**Gwobrau Adrannol**
(£250 - £500 y flwyddyn ar gyfer ymgeiswyr i'r Adrannau Cyfrifiadureg, Mathemateg a Ffiseg) ... 15

**Bwrsariaethau Aberystwyth**
(£500 ar gyfer myfyrwyr o gartrefi ag incwm sy'n is na £35,000) ... 16

**Ysgoloriaethau Chwaraeon**
(£500 y flwyddyn a manteision eraill, ar gyfer unrhyw gynllun gradd) ... 17-18

**Gwobrau Teilyngdod Chwaraeon**
(£500 i fyfyrwyr cyfredol sy'n rhagori mewn chwaraeon) ... 19

**Ysgoloriaethau Pêl-droed Prifysgol Aberystwyth/Tref Aberystwyth**
(£4,000 y flwyddyn a manteision ychwanegol ar gyfer chwaraewyr pêl-droed gwrywaidd) ... 19

**Ysgoloriaethau Cerdd**
(£650 y flwyddyn a manteision eraill) ... 20-21

**Bwrsariaethau i'r rhai sy'n Gadael Gofal, Gofalwyr Ifanc a grwpiau cysylltiedig**
(hyd at £1,500 y flwyddyn) ... 22-23

**Ysgoloriaethau Astudio trwy'r Gymraeg**
(hyd at £250 y flwyddyn ar gyfer astudio eich cwrs, neu ran o'ch cwrs, drwy gyfrwng y Gymraeg) ... 24

**Ysgoloriaethau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol**
(hyd at £5,000 ar gyfer astudio drwy gyfrwng y Gymraeg) ... 25-26

**Grant Cymdeithas y Cyn-fyfyrwyr**
(hyd at £1,500 ar gyfer ymgeiswyr o ardal Dde-ddwyrain Cymru) ... 26

**Cyflogaeth a Chymorth Ychwanegol**
(GwaithAber a'r Gwasanaeth Cyngor, Gwybodaeth ac Arian) ... 27

**Gwybodaeth Bwysig i'w Nodi** ... 29

**Ysgoloriaethau, Bwrsariaethau a Gwobrau 2019**
Tabl ... 30-31



**Marchnata a Denu Myfyrwyr**
Adeilad Cledwyn, Campws Penglais, Prifysgol Aberystwyth, Aberystwyth, Ceredigion. SY23 3DD.
Ffôn: *(01970) 622065* • E-bost: ***ymholiadau@aber.ac.uk*** • Gwefan: ***www.aber.ac.uk/ysgoloriaethau***

# Ysgoloriaethau Mynediad a Gwobrau Teilyngdod

Mae gennym hanes hir o gynnig Ysgoloriaethau yn Aberystwyth. Erbyn heddiw, mae pedwar cyfle i elwa ar gystadleuaeth yr Ysgoloriaeth Mynediad drwy sefyll dau arholiad:

## 1. Ysgoloriaethau Cyfadran – £2,000 y flwyddyn

Mae 20 Ysgoloriaeth Cyfadran ar gael, sy'n werth £2,000 y flwyddyn, ynghyd a chynnig gostyngol* i astudio yn y Brifysgol, a gwarant o lety yn eiddo'r Brifysgol gydol y cwrs**. Ein cyfadrannau academaidd sy'n clustnodi'r gwobrau hyn ar sail perfformiad rhagorol yn arholiadau'r Ysgoloriaeth Mynediad.

## 2. Ysgoloriaethau'r Brifysgol – £1,000 y flwyddyn

Mae gennym 50 o Ysgoloriaethau'r Brifysgol i'w dyfarnu i'r ymgeiswyr sy'n cael y marciau cyfunol uchaf yn y ddau bapur arholiad. Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn derbyn £1,000 ym mhob blwyddyn o'u cwrs. Mae enillwyr yr Ysgoloriaethau hyn hefyd yn cael cynnig gostyngol* a gwarant o lety yn eiddo'r Brifysgol gydol eu cwrs **.

## 3. Gwobrau Teilyngdod – £1,000 yn y flwyddyn gyntaf

Rydym yn cynnig tua 250 o Wobrau Teilyngdod bob blwyddyn i fyfyrwyr sy'n gwneud yn dda yn y gystadleuaeth ond yn methu o drwch blewyn â chael Ysgoloriaeth. Bydd deiliaid Gwobrau Teilyngdod yn derbyn £1,000 yn ystod eu blwyddyn gyntaf. Mae deiliaid Gwobrau Teilyngdod hefyd yn cael cynnig gostyngol i astudio yn y Brifysgol*.

## 4. Cynigion Gostyngol*

Bydd holl ddeiliaid yr Ysgoloriaethau a'r Gwobrau Teilyngdod yn cael cynnig gostyngol i astudio yn y Brifysgol. Bydd gostyngiad sy'n gyfwerth â thair gradd Safon Uwch neu 24 o bwyntiau tariff UCAS yn cael ei wneud i gynnig presennol yr ymgeisydd (e.e. bydd cynnig BBB yn yr arholiadau Safon Uwch yn cael ei ostwng i CCC). Bydd y gostyngiadau'n berthnasol i ymgeiswyr sy'n astudio Safon Uwch, Diploma Uwch Bagloriaeth Cymru, Diploma BTEC Lefel 3, neu gyfuniadau o'r cymwysterau hyn. Bydd cynigion gostyngol ar gyfer cymwysterau eraill yn cael eu gwneud fel y gwêl y Brifysgol yn dda.

Mae'n bosib bydd rhai ymgeiswyr nad ydynt yn derbyn gwobr yn cael cynnig gostyngol ar sail perfformiad cryf yng nghystadleuaeth yr Ysgoloriaeth Mynediad.

*Noder mai un wobr yn unig y gallwch ei derbyn o ganlyniad i sefyll arholiadau'r Ysgoloriaeth Mynediad.*

*** Er mwyn sicrhau eich gwarant o le yn un o neuaddau'r Brifysgol, rhaid i chi wneud cais am lety yn y flwyddyn academaidd nesaf erbyn y dyddiad a hysbysebir gan y Swyddfa Llety ar gyfer myfyrwyr sy'n dychwelyd.*

# Pynciau Arholiad

Rhaid sefyll arholiadau'r Ysgoloriaeth Mynediad mewn dau o'r pynciau canlynol. Os na nodir yn wahanol, fe fydd cwmpas yr arholiad yn debyg i'r hyn a geir yn Arholiadau Safon Uwch, ond nid ydynt yn dilyn unrhyw faes llafur penodol. Mae'n bwysig sicrhau fod y pynciau'n berthnasol i'r cynllun gradd a dewiswyd.

Gweler adran 'Strwythur yr Arholiadau a Chyn Papurau' ar dudalennau gwe'r ysgoloriaethau ar gyfer gwybodaeth bellach ar gynnwys pob papur, ac i edrych ar gyn papurau arholiad

Addysg ac Astudiaethau Plentyndod
Almaeneg
Amaethyddiaeth a Chefn Gwlad
Astudiaethau Ffilm a Theledu
Bioleg 1: Moleciwlau i Organau
Bioleg 2: Micro-Organebau i Ecosystemau
Busnes a Rheolaeth
Celf – Portffolio
Cemeg
Cyfrifeg
Cyfrifiadureg
Cymraeg (Iaith Fodern)
Cymraeg (Iaith Gyntaf)
Daeareg
Daearyddiaeth Ddynol
Daearyddiaeth Ffisegol
Drama ac Astudiaethau Theatr
Economeg
Ffiseg
Ffrangeg
Gwleidyddiaeth
Gwleidyddiaeth Ryngwladol
Gwyddor Anifeiliaid a Cheffylau
Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff
Hanes Celf
Hanes – Ynysoedd Prydain
Hanes – Ewrop ac America
Mathemateg
Mathemateg Bellach
Saesneg: Llenyddiaeth
Sbaeneg
Seicoleg
Technoleg Gwybodaeth
Troseddeg
Twristiaeth
Y Gyfraith
Ysgrifennu Creadigol (yn Saesneg)



**Niamh Kerrigan**
*Daearyddiaeth*
**Ysgoloriaeth Agored**
Birmingham

Aberystwyth oedd fy newis cyntaf, felly y prif beth a wnaeth fy annog i ymgeisio am yr Ysgoloriaeth Mynediad oedd y cyfle i gael cynnig gostyngol. Pan gefais y llythyr yn dweud fy mod wedi cael yr Ysgoloriaeth roeddwn yn crio dagrau o lawenydd! Roedd fy nheulu yn falch iawn ohonof hefyd. Roedd hi'n hawdd gwneud cais ac roedd gwybod fy mod wedi gwneud yn dda yn deimlad braf iawn, a rhoddodd hyn hyder imi ar gyfer fy arholiadau Safon Uwch. Bydd yn edrych yn dda ar fy CV hefyd.

# Pa bynciau ddylen i eu dewis?

Er mwyn cael eich ystyried ar gyfer gwobr a/neu gynnig gostyngol mae'n bwysig dewis papurau arholiad sy'n dderbyniol i'r adran(nau) yr ydych wedi gwneud cais i astudio ynddi. Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau eich bod wedi dewis pynciau derbyniol. Gweler y gwefan hefyd am fanylion pwysig ar bynciau arholiad unigol: www.aber.ac.uk/ysgoloriaethau

| Enw'r Adran | |
|---|---|
| Addysg | Mae'r papur arholiad yn addas ar gyfer ymgeiswyr sy'n astudio ar gyfer cymhwyster Addysg a'r rheiny sy'n ymddiddori yn y pwnc. Er bod ymgeiswyr i'r Adran yn cael eu hannog i ystyried dewis y papur hwn, mae unrhyw gyfuniad o bynciau yn dderbyniol. |
| Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu | Disgwylir i ymgeiswyr ar gyfer cwrs sengl neu gydanrhydedd mewn Drama ac Astudiaethau Theatr sefyll y papur ***Drama ac Astudiaethau Theatr*** ar gyfer un o'u dewisiadau. Disgwylir i ymgeiswyr ar gyfer cwrs sengl neu gydanrhydedd mewn Astudiaethau Ffilm a Theledu sefyll y papur arholiad ***Ffilm a Theledu*** ar gyfer un o'u dewisiadau. |
| Celf | Os yw ymgeisydd yn ymgeisio am gynllun gradd sy'n cynnwys Celfyddyd Gain – er enghraifft, cydanrhydedd mewn Hanes Celf a Chelfyddyd Gain – rhaid cyflwyno Portffolio o'i (g)waith celf fel un o'i b/phynciau Ysgoloriaethau Mynediad. |
| Cyfrifiadureg | Rhaid i ymgeiswyr sydd wedi gwneud cais am gwrs sy'n cynnwys Cyfrifiadureg sefyll o leiaf un o'r papurau ***Cyfrifiadureg neu Dechnoleg Gwybodaeth***. |
| Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear | Disgwylir i ymgeiswyr i'r Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear sefyll o leiaf un o'r papurau ***Daearyddiaeth Ffisegol, Daearyddiaeth Ddynol, neu Ddaeareg***. |
| Ffiseg | Rhaid i ymgeiswyr ysgoloriaeth sy'n bwriadu astudio Ffiseg sefyll y papur ***Ffiseg*** ar gyfer un o'u dewisiadau. Os yw ymgeiswyr yn astudio Mathemateg Safon Uwch gellir dewis unrhyw bwnc arall ar gyfer yr ail bapur. Fodd bynnag, dylai ymgeiswyr nad ydynt yn astudio Mathemateg Safon Uwch ddewis Mathemateg ar gyfer yr ail bapur. |
| Gwleidyddiaeth Ryngwladol | Gofynnir i ymgeiswyr i'r Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol sefyll o leiaf un o'r papurau a gynigiwn: ***Gwleidyddiaeth a Gwleidyddiaeth Ryngwladol***. Er bod ymgeiswyr yn cael eu hannog i ystyried sefyll y ddau bapur, gellir dewis sefyll un o'r papurau hyn ac unrhyw bwnc arall. |
| Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS) | Dylai ymgeiswyr ddewis o leiaf un papur arholiad sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r cwrs y maen nhw'n gwneud cais ar ei gyfer. Os yw ymgeiswyr yn ansicr ynghylch eu dewisiadau, gallant gysylltu â thîm derbyniadau IBERS ar ibers-admissions@aber.ac.uk am gyfarwyddyd. |

| Enw'r Adran | |
|---|---|
| Hanes a Hanes Cymru | Gofynnir i ymgeiswyr i'r Adran Hanes a Hanes Cymru sefyll o leiaf un o'r papurau a gynigiwn: *Hanes – Ynysoedd Prydain* a *Hanes – Ewrop ac America*. Er bod ymgeiswyr yn cael eu hannog i ystyried sefyll y ddau bapur, gellir dewis sefyll un o'r papurau hyn ac unrhyw bwnc arall. |
| Ieithoedd Modern | Os yw ymgeiswyr yn astudio'r iaith fodern hyd at lefel Safon Uwch, disgwylir iddynt ddewis yr iaith honno ar gyfer un o'u dewisiadau. |
| Mathemateg | Rhaid i ymgeiswyr sydd wedi gwneud cais am gwrs sy'n cynnwys mathemateg sefyll y papur *Mathemateg* ar gyfer un o'u dewisiadau. |
| Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol | Disgwylir i ymgeiswyr i'r Adran Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol sefyll un neu ddau o'r papurau a gynigiwn: *Creative Writing (in English)* ac *English Literature*. Er bod ymgeiswyr yn cael eu hannog i sefyll y ddau bapur, gellir dewis sefyll un o'r papurau hyn ac unrhyw bwnc arall. |
| Seicoleg | Er bod ymgeiswyr i'r Adran yn cael eu hannog i ystyried dewis y papur *Seicoleg*, mae unrhyw gyfuniad o bynciau yn dderbyniol. |
| Y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd | Gall y rheini sy am wneud cais i astudio Cymraeg ddewis un o ddau bapur ysgoloriaeth, sef naill ai bapur *Cymraeg Iaith Fodern* yn achos myfyrwyr ail iaith, neu bapur *Cymraeg Iaith Gyntaf* yn achos myfyrwyr iaith gyntaf. |
| Ysgol Fusnes | Er bod ymgeiswyr i'r Ysgol Fusnes yn cael eu hannog i ystyried dewis y papur ar gyfer y pwnc y maen nhw wedi gwneud cais ar ei gyfer, mae unrhyw gyfuniad o bynciau yn dderbyniol. |
| Ysgol y Gyfraith | Er bod ymgeiswyr i Ysgol y Gyfraith yn cael eu hannog i ystyried dewis papurau *Y Gyfraith / Troseddeg*, mae unrhyw gyfuniad o bapurau yn dderbyniol. |

## Dyddiad yr Arholiadau

Cynhelir yr arholiadau **ddydd Mawrth, 29 Ionawr 2019**. Bydd ymgeiswyr yn sefyll un papur yn ystod sesiwn y bore a'r llall yn ystod sesiwn y prynhawn. Mae amserlen yr arholiadau ar gael ar y wefan. Os yw'r ddau bwnc wedi'u hamserlennu ar gyfer yr un sesiwn byddwch yn eistedd un o'r papurau yn y bore a'r papur arall yn y prynhawn. Yn anffodus, NI fydd ymgeiswyr yn gallu sefyll yr arholiadau ar unrhyw ddiwrnod arall.

## Sut i wneud cais

- Y dyddiad cau i wneud cais am gystadleuaeth yr Ysgoloriaeth Mynediad yw **18 Ionawr 2019** (rhaid i ymgeiswyr sydd am sefyll yr arholiadau y tu allan i'r DU wneud cais erbyn 15 Ionawr 2019). Cewch wneud cais ar-lein yn syml ac yn gyflym ar ein gwefan (os ydych yn byw yn y DU fel arfer), neu argraffu'r ffurflen gais, ei sganio, a'i hanfon atom drwy ebost. Fodd bynnag, sylwer **NA** chaiff ceisiadau a ddaw i law ar ôl 18 Ionawr 2019 eu derbyn.
- Cewch ebost gennym yn cadarnhau ein bod wedi derbyn eich ffurflen gais. Cysylltwch â ni os na fyddwch wedi cael cadarnhad drwy ebost o fewn 3 diwrnod gwaith ar ôl cyflwyno eich ffurflen. Mae'r gydnabyddiaeth hon yn brawf bod eich cais wedi dod i law, ac ni fydd modd i ni unioni unrhyw faterion yn ddiweddarach.
- Cofiwch nodi ar eich ffurflen gais unrhyw anghenion penodol sydd gennych fel arfer ar gyfer arholiadau (e.e. amser ychwanegol, defnyddio cyfrifiadur). Os ydych am sefyll yr arholiadau yn Aberystwyth, **RHAID** cyflwyno gyda'ch ffurflen gais llythyr/e-bost o'ch ysgol/coleg yn cadarnhau bod hawl i chi gael y trefniadau yna. Gweler hefyd ein polisi ar wneud addasiadau rhesymol ar gyfer ymgeiswyr sy'n eistedd arholiadau'r Ysgoloriaeth Mynediad: www.aber.ac.uk/mynediad-teilyngdod

## Os ydych yn byw y tu allan i'r DU fel arfer:

Y dyddiad cau i ymgeiswyr sydd am sefyll yr arholiadau y tu allan i'r DU yw 15 Ionawr 2019. Rhaid cwblhau ffurflen gais a'i bostio/e-bostio i ni (ni allwn dderbyn ceisiadau ar-lein oddi wrth ymgeiswyr o du allan Prydain). Nodwch NI dderbynnir ceisiadau hwyr.

## Lle y cynhelir yr arholiadau

Os ydych yn byw yn y DU fel arfer, cewch ddewis sefyll yr arholiadau:

**Naill ai ym Mhrifysgol Aberystwyth**

Os bydd ymgeiswyr am ddod i Aberystwyth i sefyll yr arholiadau bydd angen iddynt wneud eu trefniadau teithio a llety eu hunain. Fodd bynnag, bydd modd i ni wneud cyfraniad ariannol tuag at eich trefniadau. Os byddwch yn dewis sefyll yr arholiadau yn Aberystwyth byddwn yn anfon manylion llawn atoch maes o law.

**Neu yn yr ysgol/coleg**

Os byddai'n well gennych sefyll yr arholiadau yn eich ysgol/coleg mae croeso i chi wneud hynny, a bwrw bod eich Swyddog Arholiadau'n cadarnhau ei fod/eu bod yn fodlon gwneud y trefniadau angenrheidiol. **RHAID** i chi gael caniatâd y Swyddog Arholiadau cyn cyflwyno eich ffurflen gais.

Cyfrifoldeb yr **ymgeisydd** fydd cysylltu â'i Swyddog Arholiadau **CYN** diwrnod yr arholiadau i sicrhau bod y papurau arholiad cywir wedi dod i law a bod trefniadau priodol wedi'u gwneud (e.e. ynglŷn ag ystafell yr arholiad, goruchwylio ac ati). Ni fydd modd unioni camgymeriadau a ddaw i sylw'r Brifysgol ar ôl amserlen yr arholiadau.



**Gellir sefyll arholiadau'r Ysgoloriaeth Mynediad tu allan i'r DU:**

1. **Naill ai ar y cyd ag un o'n partneriaid yn Ewrop**:
   - Bwlgaria (Sofia) – cysylltwch ag Integral: ivelkova@integral.bg
   - Estonia (Tallinn) - cysylltwch â Dream Foundation: estonia@dreamfoundation.eu
   - Gwlad Pwyl (Siedlce) – cysylltwch ag Open Future School: estonia@dreamfoundation.eu
   - Gwlad Pwyl (Wroclaw) – cysylltwch â Brytanka: biuro@brytanka.com
   - Hwngari (Budapest) - cysylltwch â IEC Online: info@ieconline.hu

2. Neu mewn ysgol/coleg sydd wedi'i ddilysu i gynnal cymwysterau Safon Uwch neu gymwysterau cyfatebol sydd wedi'u hachredu gan fwrdd arholi yn y DU. Bydd yn rhaid i chi ddarparu tystiolaeth gyda'ch ffurflen gais fod eich ysgol/coleg yn gymwys. **NI** dderbynnir ceisiadau a ddaw i law heb y dystiolaeth hon.

Cofiwch, fel myfyriwr o'r UE byddwch yn gymwys i gael cymorth ariannol tuag at gostau eich ffioedd dysgu wrth astudio yng Nghymru: www.studentfinancewales.co.uk

Rydym hefyd yn cynnig Ysgoloriaethau ar gyfer myfyrwyr rhyngwladol: www.aber.ac.uk/en/undergrad/scholarships/non-eu/

## Ymgeiswyr Hŷn

Croesewir ceisiadau gan ymgeiswyr hŷn, ond sylwer na chaiff ymgeiswyr fod wedi bod yn fyfyrwyr gradd yn unrhyw brifysgol am fwy nag un semester unrhyw bryd yn y gorffennol.

**Sylwer:** Er bod yn rhaid i chi fod wedi gwneud cais i astudio ym Mhrifysgol Aberystwyth erbyn y dyddiad cau o 18 Ionawr, nid oes rhaid i chi gael cynnig gennym cyn i chi sefyll yr Arholiadau.

## Gohirio Mynediad

Os ydych yn bwriadu gohirio eich cais i'r Brifysgol cewch sefyll yr arholiadau a gohirio unrhyw ddyfarniad law yn llaw â'ch mynediad gohiriedig i'r Brifysgol. Cewch hefyd ddewis sefyll yr arholiadau yn ystod eich blwyddyn allan.



## Beth sydd angen ei wneud?

Mae Ysgoloriaethau Mynediad a Gwobrau Teilyngdod yn agored i ymgeiswyr ar gyfer unrhyw gynllun gradd yn Aberystwyth. Bydd yn rhaid i chi sefyll **DAU** arholiad o blith y 37 o bynciau a gynigiwn. Mae pob arholiad yn para awr a hanner. Caiff yr arholiadau eu gosod a'u marcio gan ein hadrannau academaidd, ac felly nid ydynt yn dilyn maes llafur penodol, ond dylai'r safon fod tua'r un safon ag arholiadau Safon Uwch.

## Hen Bapurau

Mae copïau o'r papurau a osodwyd yn y blynyddoedd diwethaf ar gael ar ein gwefan: www.aber.ac.uk/ysgoloriaethau/papurau

*Sylwer: Cyn 2017 roedd yr arholiadau'n para 2 awr, ac mae'n bosib bydd fformat y papurau wedi newid o 2017 ymlaen.*

## Trefniadau Penodol

**Rhaid i ymgeiswyr a chanddynt ofynion arholi penodol ar gyfer eu harholiadau arferol yn yr ysgol (e.e. amser ychwanegol, defnyddio cyfrifiadur) gyflwyno llythyr/ebost gyda'u cais oddi wrth eu hysgol yn cadarnhau'r gofynion hynny**. Fel arfer caiff ymgeiswyr cymwys 25% o amser ychwanegol, a'r un trefniadau ag yn eu harholiadau arferol yn yr ysgol. Gweler ein polisi ar wneud addasiadau rhesymol ar gyfer ymgeiswyr sy'n sefyll arholiadau'r Ysgoloriaeth Mynediad: www.aber.ac.uk/mynediad-teilyngdod

## Canlyniadau

Caiff y canlyniadau eu hanfon drwy'r post i bob ymgeisydd a'u hysgol/coleg oddeutu 4 wythnos ar ôl yr arholiadau. Os cewch gynnig Ysgoloriaeth neu Wobr Teilyngdod, bydd angen i chi nodi Aberystwyth fel dewis cadarn drwy UCAS er mwyn derbyn y wobr (nodir yr unig eithriadau yn y Rheoliadau). Mae'r Brifysgol yn cyhoeddi manylion yr ymgeiswyr llwyddiannus ac enwau eu hysgolion/colegau ar ei gwefan ac mewn cyhoeddiadau eraill o bryd i'w gilydd. Os nad yw ymgeiswyr am i'w henwau gael eu cyhoeddi, dylent sicrhau eu bod yn nodi hynny ar eu ffurflen gais.

## Talu'r Gwobrau

Pan ddechreuwch eich cwrs yn y Brifysgol byddwn yn gofyn i chi nodi eich manylion banc



ar eich Cofnod Myfyriwr. Telir eich arian yn syth i'ch banc drwy BACS mewn dau randaliad ym mhob blwyddyn gymwys - y cyntaf ddechrau mis Rhagfyr, a'r ail ddechrau mis Mawrth. Yn ystod y flwyddyn gyntaf yn unig y gwneir taliadau'r Gwobrau Teilyngdod. **Bydd taliadau'r Ysgoloriaethau Mynediad yn parhau ar gyfer pob blwyddyn gymwys o'ch cwrs a bwrw bod eich cyfradd bresenoldeb yn 70% o leiaf yn eich blwyddyn gyntaf (darlithoedd, seminarau, gweithdai, sesiynau ymarferol ac ati)**.

## Ysgolion a Cholegau

Ceir gwybodaeth i ysgolion a cholegau, gan gynnwys manylion y gweithdrefnau i'w dilyn mewn amgylchiadau arbennig (e.e. os oes raid i'r ysgol/coleg gau mewn tywydd garw) ar ein gwefan:
www.aber.ac.uk/ysgoloriaethau/ysgolion

Anfonir papurau a deunyddiau'r arholiadau at y Swyddog Arholiadau enwebedig oddeutu wythnos cyn yr arholiadau.

Ni chodir tâl am sefyll arholiadau'r Ysgoloriaeth Mynediad, ond ni fydd y Brifysgol yn gallu cyfrannu at unrhyw gostau goruchwylio neu archebu ystafelloedd. Os mai dim ond un ymgeisydd sy'n sefyll yr arholiadau yn eich canolfan ni fydd yn rhaid i chi oruchwylio'r ymgeisydd gydol yr arholiad (a bwrw bod yr ymgeisydd mewn ystafell/swyddfa ddiogel ac nad oes adnoddau'r we, llyfrau, deunyddiau cyfeirio, dyfeisiau symudol neu electronig ar gael yno). Bydd trefniadau arholiadau arferol yn berthnasol.

## Cymwynaswyr

Mae modd i ni gynnig ein Hysgoloriaethau Mynediad drwy roddion hael nifer o gymwynaswyr dros y blynyddoedd. Mae cyfyngiadau ar rai gwobrau o ran pwy gaiff eu derbyn. Nid oes raid gwneud cais am Ysgoloriaeth benodol - os bydd eich canlyniadau'n ddigon uchel byddwn yn dyfarnu Ysgoloriaeth addas i chi. Fodd bynnag, dylech roi gwybod i ni os ydych chi'n fab i Weinidog Anghydffurfiol ac felly'n gymwys i gael eich ystyried am Ysgoloriaeth Goffa David Morgan Thomas o Caterham. Mae rhestr o'n cymwynaswyr a'r telerau a'r amodau sydd ynghlwm wrth wobrau unigol ar gael ar-lein.
www.aber.ac.uk/ysgoloriaethau/rhodd



## Rheoliadau ar gyfer Ysgoloriaethau Mynediad

1. Cynigir Ysgoloriaethau a Gwobrau sy'n agored i ymgeiswyr a fydd wedi cyrraedd 17 mlwydd oed erbyn 1 Hydref yn y flwyddyn y bwriadant ddechrau ar eu gyrfa yn y brifysgol.
2. Rhaid i ymgeiswyr gyflwyno ffurflen gais i'r Swyddfa Marchnata a Denu Myfyrwyr cyn 18 Ionawr yn nodi'r ddau bwnc y dymunant gael eu harholi ynddynt a'r cwrs yr hoffent ei astudio. Ni chaiff ymgeiswyr sefyll papurau mewn cyfuniad o bynciau sy'n annerbyniol i'w darpar adran.
3. Amod derbyn gwobr yw bod yn rhaid i ymgeisydd sydd yn ei hennill dderbyn y Brifysgol yn ddewis 'cadarn' ganddo/ganddi trwy UCAS. Mae'r Brifysgol yn diogelu'r hawl i dynnu'r wobr yn ôl petai'r ymgeisydd yn dynodi fod y Brifysgol yn ddewis 'wrth gefn' iddo/iddi. Yr eithriad i hyn fydd ymgeiswyr sy'n dal cynnig o brifysgolion Caergrawnt neu Rydychen, neu sydd wedi gwneud cais am gwrs Gwyddor Milfeddygaeth, lle caniateir i Brifysgol Aberystwyth gael ei dal yn ddewis wrth gefn.
4. Ni dderbynnir unrhyw ymgeisydd ar gyfer yr arholiad os bu'n fyfyriwr/wraig gradd mewn unrhyw brifysgol neu goleg prifysgol am fwy nag un tymor.
5. Bwriedir yr arholiadau i ymgeiswyr yn eu pedwerydd tymor o Flwyddyn 13, neu gyfnod cyfatebol. Gofynnir am safon uwch o berfformiad gan ymgeisydd sydd wedi cwblhau dwy flynedd yn y 6ed dosbarth neu'r hyn sy'n cyfateb i hynny. Anogir ceisiadau hefyd gan fyfyrwyr hŷn.
6. Mae'r Brifysgol yn diogelu ei hawl i atal unrhyw wobr os na cheir ymgeisydd teilwng.
7. Mae'r Senedd yn diogelu ei hawl i rannu unrhyw wobr mewn achos o gydraddoldeb.
8. Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i dynnu cais am Ysgoloriaeth Mynediad yn ôl ar gyfer unrhyw ymgeisydd nad ydynt yn gallu cynnig lle iddynt astudio. Er y byddwn yn ymdrechu i adnabod ymgeiswyr o'r fath cyn gynted â phosibl, mae'n bosibl y bydd y penderfyniad hwn yn cael ei wneud ar ôl i'r arholiadau gael eu cwblhau, er enghraifft pan fo'r cais UCAS wedi cael ei dderbyn yn agos i'r dyddiad cau ar gyfer cystadleuaeth yr Ysgoloriaeth Mynediad ac nad yw wedi cael ei adolygu'n llawn cyn dyddiad yr arholiadau. Noder na fydd canlyniadau arholiadau'r Ysgoloriaeth Mynediad yn chwarae unrhyw ran yn y penderfyniad hwn - bydd y penderfyniad i gynnig lle i astudio neu beidio yn cael ei wneud yn seiliedig ar y wybodaeth a geir ar ffurflen gais UCAS yr ymgeisydd yn unig.
9. Er mwyn osgoi unrhyw broblemau posibl o ran derbyn gwobr, cynghorir yr ymgeiswyr i beidio â rhoi unrhyw sefydliad arall fel eu dewis Cadarn drwy UCAS nes eu bod wedi derbyn canlyniadau'r Ysgoloriaeth Mynediad. Bydd ymgeiswyr yn cael canlyniadau'r Ysgoloriaeth Mynediad cyn canol mis Mawrth.
10. Os na all Adran gynnig lle i ymgeisydd astudio ar eu dewis cyntaf o gwrs ond yn hytrach eu bod yn cynnig lle iddynt astudio ar gwrs tebyg sy'n cynnwys blwyddyn sylfaen, bydd unrhyw wobr yn berthnasol i'r cynllun diwygiedig hwnnw yn unig.
11. Os bydd ymgeisydd wedi gwneud cais am gynllun sy'n cynnwys blwyddyn sylfaen a'u bod yn cael cynnig lle ar y cwrs hwnnw, bydd unrhyw wobr a geir yn berthnasol i'r cynllun hwnnw'n unig, ac ni fydd yn trosglwyddo'n awtomatig i gynllun gradd 3 blynedd.
12. Mae'r Senedd yn diogelu ei hawl i ostwng cyfanswm unrhyw wobr os bydd yr ymgeisydd yn derbyn gwobr o ffynhonnell arall.
13. Bydd taliadau'r Ysgoloriaeth Mynediad yn parhau ar gyfer pob blwyddyn gymwys o'r cwrs a bwrw bod cyfradd bresenoldeb yn 70% o leiaf yn y flwyddyn gyntaf (darlithoedd, seminarau, gweithdai, sesiynau ymarferol ac ati).

14. Bydd y Senedd yn gostwng neu'n atal gwobr yn gyfan gwbl oni bydd y sawl sy'n ei dal yn gwneud cynnydd academaidd yn ôl tystiolaeth athrawon ac yn ôl canlyniadau arholiadau diwedd tymor a diwedd sesiwn y Brifysgol, ac os na bu ymddygiad na diwydrwydd y deiliad yn foddhaol.
15. Ni wneir taliadau yn ystod blwyddyn dramor, blwyddyn mewn gwaith, blwyddyn rhyng-gwrs, blwyddyn sy'n cael ei hailwneud, ac ati.
16. Rhaid i ddeiliaid ysgoloriaethau fynd ati i godi ymwybyddiaeth o'r Brifysgol drwy gymryd rhan mewn cynlluniau hyrwyddo lle bo hynny'n briodol (e.e. ymweliadau ag ysgolion/colegau, diwrnodau agored, diwrnodau ymweld, gweithgareddau ehangu cyfranogiad). Bydd angen i ddeiliaid gofrestru gyda chynllun AberGwaith, a chaiff myfyrwyr sy'n cymryd rhan yn y gweithgareddau hyn eu digolledu am yr oriau a weithiwyd ar gyfradd safonol myfyriwr-lysgennad (hysbysebir y cyfleoedd hyn yn ystod y flwyddyn academaidd).
17. O ran eu dyfarnu a'u dal, caiff yr Ysgoloriaethau eu gweithredu yn unol â'r rheoliadau cyffredinol sy'n llywodraethu Ysgoloriaethau Mynediad Prifysgolion.

*Sylwer mai dim ond un wobr y gallwch ei derbyn drwy sefyll arholiadau'r Ysgoloriaeth Mynediad.*

## Ysgoloriaeth Rhagoriaeth Academaidd

**£2,000**

Er mwyn gwobrwyo rhagoriaeth academaidd a gyflawnwyd cyn dechrau yn y Brifysgol, mae'n bleser gennym gynnig Ysgoloriaethau Rhagoriaeth Academaidd gwerth £2,000 yn y flwyddyn gyntaf o astudio i ymgeiswyr o'r DU/UE sy'n rhoi Prifysgol Aberystwyth fel dewis Cadarn drwy UCAS ac sy'n mynd ymlaen i gael:

- Graddau AAA yn yr arholiadau Safon Uwch*
- *D*D*D* yn y BTEC Diploma Estynedig Lefel 3
- 36 pwynt yn y Fagloriaeth Rhyngwladol
- Gweler tudalennau Ysgoloriaeth ar y wefan ar gyfer manylion ar gymwysterau ychwanegol.

Nid oes raid gwneud cais, bydd y gwobrau'n cael eu clustnodi'n awtomatig i'r myfyrwyr cymwys.

** Mae'n bosibl y derbynnir gradd A yn Niploma Uwch Bagloriaeth Cymru, a fydd yn cynnwys y Dystysgrif Her Sgiliau Uwch, yn lle un o'r graddau Safon Uwch.*



## Bwrsariaethau Rashid Domingo — hyd at £12,000

Mae Bwrsariaethau Rashid Domingo ar gael o ganlyniad i rodd hael gan Mr Rashid Domingo i'r Brifysgol.

Ar ôl creu nifer o ysgoloriaethau a bwrsariaethau yn ei Dde Affrica frodorol, mae Mr Domingo yn awyddus i gyfeirio'i ddiddordebau dyngarol tuag at Gymru a myfyrwyr Cymreig ac mae'n dymuno cynorthwyo ymgeiswyr abl a haeddiannol i gyflawni eu potensial academaidd. Y gobaith yw y bydd y rhai sy'n derbyn y Fwrsariaeth yn cael eu symbylu i ystyried helpu myfyrwyr eraill mewn modd tebyg yn y dyfodol.

Mae'r Bwrsariaethau ar gael i ymgeiswyr israddedig sy'n dymuno astudio yn yr Adran Ffiseg neu Athrofa'r Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS). Rhaid i'r ymgeiswyr fod wedi mynychu ysgol uwchradd/coleg yng Nghymru am gyfnod o 3 blynedd o leiaf. Diben y Fwrsariaeth yw cynorthwyo myfyrwyr a allai fel arall gael eu hatal rhag mynd i brifysgol oherwydd ystyriaethau ariannol.

Yn ystod y flwyddyn gyntaf, y wobr fel rheol fydd cyfraniad o hyd at £4,000 tuag at lety'r myfyriwr mewn llety Prifysgol. Ym mlynyddoedd 2 a 3, bydd y taliad o £4,000 yn cael ei wneud mewn 3 rhandaliad yn uniongyrchol i gyfrif banc y derbynnydd (£1,500 ym mis Hydref, £1,500 ym mis Rhagfyr, a £1,000 ym mis Mawrth).

Ceir amodau a thelerau llawn y Bwrsariaethau, ynghyd â ffurflen gais ar-lein ar: www.aber.ac.uk/ysgoloriaethau


Y dyddiad cau am ceisiadau yw 31 Ionawr 2019.

## Ysgoloriaeth Emily Price — £500

Sefydlwyd yr Ysgoloriaeth hon gan deulu a ffrindiau cyn-fyfyrwraig, Emily Price, i wobrwyo ymgeiswyr benywaidd ar gyfer cyrsiau Mathemateg a Ffiseg (yn cynnwys cydanrhydedd Mathemateg/Ffiseg) yn Aberystwyth. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn dangos addewid academaidd a brwdfrydedd ar gyfer cynyddu cyfranogiad menywod mewn Mathemateg a/neu Ffiseg. Telir yr Ysgoloriaeth yn ystod y flwyddyn astudio gyntaf.

Rhaid i ymgeiswyr wneud cais ar gyfer cwrs cymwys erbyn Ionawr 15fed 2019 a chadarnhau Aberystwyth fel eu dewis Cadarn o brifysgol. Rhaid iddynt hefyd lenwi a chyflwyno ffurflen gais Ysgoloriaeth Emily Price erbyn Ionawr 31ain 2019 a gellir gofyn iddynt ddod i gyfweliad byr i drafod y cais yn ystod Diwrnod Ymweld i Ymgeiswyr ym mis Chwefror neu fis Mawrth 2019.

Gellir cael hyd i fanylion llawn a'r ffurflen gais ar-lein yma: www.aber.ac.uk/ysgoloriaethau



# Gwobrau Adrannol

Y mae nifer o'n hadrannau academaidd yn cynnig Gwobrau Adrannol, a gallwch ddal y rhain yn ogystal â nifer o'n Gwobrau eraill. Gellir cael manylion am wneud cais gan yr adrannau'n uniongyrchol.

## Yr Adran Cyfrifiadureg

*Ysgoloriaethau Adrannol i astudio Cyfrifiadureg*

**Anrhydedd Sengl: £500 y flwyddyn**
**Anrhydedd Cyfun: £250 y flwyddyn**

Mae hyd at dair ysgoloriaeth ar gael i fyfyrwyr sy'n ennill graddau rhagorol yn arholiadau'r Ysgoloriaeth Mynediad, neu sydd wedi llwyddo i gael graddau rhagorol (A*) yn eu harholiadau Safon Uwch neu gwymwysterau cyfatebol. Gwerth y wobr yw £500 y flwyddyn gydol eich cwrs gradd (tair neu bedair blynedd), sy'n rhoi cyfanswm o hyd at £7,500 (o gynnwys Ysgoloriaeth Cyfadran y Brifysgol). Er mwyn parhau i dderbyn y wobr rhaid i chi gael 70% neu fwy ar gyfartaledd yn eich arholiadau bob blwyddyn. Mae myfyrwyr anrhydedd gyfun yn gymwys i gael £250 y flwyddyn.

I gael rhagor o fanylion, cysylltwch â'r Adran Cyfrifiadureg: cs-admissions@aber.ac.uk

## Adran Mathemateg

*Ysgoloriaethau Adrannol i astudio Mathemateg*

**Anrhydedd Sengl: £500 y flwyddyn**
**Prif bwnc cwrs Prif/Is-bwnc: £500 y flwyddyn**
**Anrhydedd Cyfun: £250 y flwyddyn**

I fod yn gymwys, mae'n rhaid i ymgeisydd fod naill ai ag Ysgoloriaeth Mynediad y Brifysgol, neu'n llwyddo i gael gradd A* yn eu haroliadau Safon Uwch mewn Mathemateg. Gwerth y wobr yw £500 y flwyddyn ar gyfer ymgeiswyr am gyrsiau anrhydedd sengl a chyrsiau prif/is-bwnc (gyda'r brif bwnc mewn mathemateg), a £250 y flwyddyn i ymgeiswyr am gyrsiau anrhydedd gyfun. Dyfernir y wobr yn awtomatig i fyfyrwyr sy'n cyrraedd y meini prawf uchod, a chedwir y wobr os ydych yn llwyddo i gael cyfartaledd o



70% neu uwch yn eich modiwlau Mathemateg bob blwyddyn. I gael rhagor o fanylion, cysylltwch â'r Adran Mathemateg: maths-admissions@aber.ac.uk

## Adran Ffiseg

*Ysgoloriaethau Adrannol i astudio Ffiseg*

**Anrhydedd Sengl: £500 y flwyddyn**
**Anrhydedd Cyfun: £250 y flwyddyn**

I fod yn gymwys, mae'n rhaid i ymgeisydd fod naill ai ag Ysgoloriaeth Mynediad y Brifysgol, neu'n llwyddo i gael o leiaf dwy radd A yn eu Safon Uwch, a rhaid i un ohonynt fod mewn Ffiseg neu Fathemateg. Gwerth y wobr yw £500 y flwyddyn am gyfnod eich cwrs (dair/pedair blynedd), sy'n rhoi cyfanswm o hyd at £7,500 (yn cynnwys Ysgoloriaeth Cyfadran y Brifysgol).

Gallwch gadw'r wobr os ydych yn llwyddo i gael cyfartaledd o 70% neu uwch yn arholiadau eich modiwlau bob blwyddyn. Mae myfyrwyr anrhydedd cyfun yn gymwys i gael £250 y flwyddyn. I gael rhagor o fanylion, cysylltwch â'r Adran Ffiseg: phys@aber.ac.uk

## Bwrsariaethau Aberystwyth £500 y flwyddyn

Mae'r rhaglen fwrsariaeth prawf modd sydd gennym wedi'i thargedu i gefnogi ehangu mynediad i addysg uwch ac rydym yn ymrwymedig i gyfle cyfartal i bob myfyriwr. Rydym felly wedi dyrannu cyfran o'n hincwm ffioedd i greu cynllun bwrsariaeth er mwyn cynorthwyo myfyrwyr israddedig amser-llawn o bob rhan o'r Deyrnas Unedig [DU] a'r Undeb Ewropeaidd [UE]. Os yw incwm gweddillol eich cartref yn is na £35,000 byddwch yn derbyn £500 y flwyddyn tuag at eich costau byw.

Bydd ymgeiswyr cymwys o'r DU yn derbyn y fwrsariaeth yn awtomatig. Pan fyddwch yn gwneud cais am gyllid myfyrwyr, dewiswch i 'rannu' eich gwybodaeth ar y ffurflen berthnasol; yna bydd y Brifysgol yn cael copi o asesiad ariannol incwm eich cartref gan y cwmni Cyllid Myfyriwr perthnasol ac yn defnyddio hwn i asesu a ydych yn gymwys ar gyfer y fwrsariaeth.

Dylai ymgeiswyr o'r UE (tu allan i'r DU) sicrhau eu bod yn cwblhau a dychwelyd y ffurflen cyllid myfyrwyr perthnasol, a fydd yn cael ei hanfon atoch gan y Tîm Gwasanaethau Cwsmeriaid UE Cyllid Myfyrwyr ar ôl i chi ddychwelyd y ffurflen cymorth ffioedd dysgu safonol i fyfyrwyr newydd.

### Cymorth Ychwanegol

Mae Cronfa Caledi'r Brifysgol ar gael ar gyfer myfyrwyr llawn-amser o'r DU yr UE, a myfyrwyr rhyngwladol ac yn darparu cymorth i fyfyrwyr mewn gwir angen ariannol.

Cynlluniwyd y gronfa i gynorthwyo gyda threuliau blaenoriaeth megis costau byw a llety. Gellir gwneud cyfraniadau hefyd am gostau sy'n gysylltiedig â'r cwrs lle nad oes unrhyw arian ychwanegol ar gael, er enghraifft tripiau maes, offer/deunyddiau astudio, mynychu cyfweliadau.

Gweler y wefan am ragor o wybodaeth:
www.aber.ac.uk/cy/student-support
neu e-bostiwch: student-support@aber.ac.uk



# Ysgoloriaethau Chwaraeon £500 y flwyddyn

Anelir yr Ysgoloriaethau Chwaraeon at fyfyrwyr sydd fel arfer yn byw yn y DU/UE ac sy'n gallu dangos tystiolaeth o gyflawniadau diweddar o safon uchel ym maes chwaraeon ac ymrwymiad i ddatblygu perfformiad.

Mae Ysgoloriaethau Chwaraeon ar gael i fyfyrwyr sy'n gwneud cais am UNRHYW bwnc llawn-amser yn Aberystwyth.

**Manteision yr Ysgoloriaethau Chwaraeon yw:**

- £500 y flwyddyn (hyd at 10 ar gael bob blwyddyn)
- Aelodaeth Blatinwm rad ac am ddim yng Nghanolfan Chwaraeon y Brifysgol am bob blwyddyn astudio
- Sicrwydd o lety mewn Neuadd Breswyl neu eiddo a weinyddir gan y Brifysgol am y cwrs cyfan*

**Er mwyn cadarnhau eich gwarant o le yn llety'r Brifysgol, mae'n rhaid i chi wneud cais am lety ar gyfer y flwyddyn academaidd ganlynol o fewn y dyddiadau a hysbysebir gan y Swyddfa Lety ar gyfer myfyrwyr sy'n dychwelyd.*

## Sut i Wneud Cais

- Dylai myfyrwyr wneud cais trwy UCAS erbyn 30 Mehefin 2019 a nodi Aberystwyth yn ddewis 'Cadarn'.
- Bydd angen i fyfyrwyr lenwi ffurflen gais a'i hanfon yn ôl i'r Brifysgol erbyn 30 Mehefin 2019.
- Gellir gwahodd ymgeiswyr i gyfweliad er mwyn trafod eu cais ymhellach.
- Gellir cyflwyno ceisiadau drwy'r ffurflen gwneud cais ar-lein neu drwy lawrlwytho ffurflen o'r adran 'Ysgoloriaethau' ar y wefan.
- Rhaid i ymgeiswyr gwrdd â gofynion eu cynnig yn llawn.

Gellir dal Ysgoloriaeth Chwaraeon ar y cyd ag unrhyw wobr arall.



**Callum van Beveren**
*Gwleidyddiaeth Ryngwladol ac Astudiaethau Cudd-Wybodaeth*
**Ysgoloriaeth Chwaraeon - Saethu**
Sandhurst

Roeddwn yn awyddus iawn i ddod i Aberystwyth oherwydd y cwrs, felly roeddwn wrth fy modd pan gefais gynnig gostyngol oherwydd fy nghanlyniadau uchel yn arholiadau'r Ysgoloriaeth Mynediad oherwydd roeddwn yn teimlo llai o bwysau yn ystod fy arholiadau Safon Uwch. Roedd cymhelliant ariannol yr Ysgoloriaeth Chwaraeon yn atyniad mawr – mae'n golygu fy mod yn gallu ariannu'r gamp rwy'n ei mwynhau a bydd yn fy ngalluogi i ddatblygu fy uchelgais – yn ogystal â gallu defnyddio'r gampfa am bris gostyngol.
Mae hefyd wedi fy helpu i feithrin hyder yn fy ngallu oherwydd bod y Brifysgol wedi cydnabod fy nghyflawniadau.





**Chlôe Jones**
*Daearyddiaeth Ddynol a Hanes*
**Ysgoloriaeth Chwaraeon - Pel-rwyd,**
Caerdydd

Y syniad o gael fy ngwobrwyo am wneud rhywbeth rwy wrth fy modd yn ei wneud ac rwy'n teimlo'n angerddol yn ei gylch a'm denodd i ymgeisio am Ysgoloriaeth Chwaraeon. Roeddwn ar ben fy nigon pan glywais fy mod wedi ennill y wobr ac wedi cyffroi hyd yn oed yn fwy ynglŷn ag astudio yn Aberystwyth. Mae'n golygu fy mod wedi gallu ymroi i bob agwedd ar fy nghwrs a'r clwb pêl rwyd heb orfod poeni am yr ochr ariannol.
Mae derbyn yr Ysgoloriaeth hefyd wedi helpu fy mherfformiad yn y gamp a llwyddais i wneud yn well nag erioed o'r blaen yn y treialon, gan wybod bod gan y Brifysgol ffydd ynof.



## Amodau i'w cyflawni gan y rhai sy'n dal Ysgoloriaeth Chwaraeon

1. Bydd yn rhaid i fyfyrwyr fodloni holl delerau eu cynnig yn llawn.
2. Disgwylir i'r myfyrwyr gyfrannu at un o Glybiau Chwaraeon Undeb y Myfyrwyr ac fel arfer byddai disgwyl iddynt gynrychioli'r Brifysgol yn y gamp y cawsant yr Ysgoloriaeth amdani. Mewn rhai amgylchiadau efallai na fyddai'r amod hwn yn briodol neu'n bosibl, a gellid ei eithrio trwy gytundeb Cadeirydd y Panel Dyfarnu. Gofynnir i ddeiliaid Ysgoloriaethau gadarnhau eu bod ar gael i gynrychioli'r Brifysgol pan fyddant yn derbyn eu gwobr.
3. Dylai myfyrwyr sy'n dal Ysgoloriaeth gytuno i ymddwyn mewn modd sy'n gweddu i gynrychiolwyr y Brifysgol, a cheisio cynnal neu wella eu perfformiad chwaraeon.
4. Bydd y myfyrwyr yn cynorthwyo i hyrwyddo proffil chwaraeon y Brifysgol ac yn cynorthwyo â chynlluniau eraill sy'n cynnwys hyrwyddo'r Brifysgol e.e. Dyddiau Agored, Dyddiau Ymweld, gweithgareddau Ehangu Cyfranogiad, lle bo hynny'n briodol. Caiff y myfyrwyr eu talu am oriau y byddant yn gweithio ar y raddfa safonol i fyfyrwyr.
5. Bydd gan ddeiliad yr Ysgoloriaeth gyfle i adolygu eu cynnydd gyda Chydgysylltydd Gweithgareddau'r Myfyrwyr ac efallai y bydd gofyn iddynt gadw dyddiadur hyfforddi i hwyluso'r broses adolygu. Gweinyddir y broses asesu a chynnydd gan Ysgrifennydd y Panel Dyfarnu, ac fe weinyddir y broses adolygu gan Fentor yr Ysgoloriaethau Chwaraeon.
6. Bydd disgwyl i ddeiliaid Ysgoloriaethau gyflwyno adroddiadau cynnydd byrion (ar dempled a fydd yn cael ei ddarparu) ar ddiwedd eu semester cyntaf, ac ar ddiwedd pob blwyddyn astudio. Rhaid i ddeiliaid Ysgoloriaethau hefyd roi gwybod i'r Mentor Ysgoloriaeth Chwaraeon os bydd amgylchiadau yn newid mewn unrhyw fodd a fydd yn golygu na allant barhau â'u dewis gamp yn ystod eu cyfnod yn y Brifysgol.
7. Ni wneir taliadau yn ystod blwyddyn dramor, blwyddyn mewn gwaith, blwyddyn rhyng-gwrs, blwyddyn sy'n cael ei hailwneud, ac ati.
8. Bydd myfyrwyr sydd yn dal yr Ysgoloriaeth yn dal i gael y buddiannau ar yr amod mai myfyrwyr amser-llawn ydyn nhw.
9. Os na fydd y cynnydd yn foddhaol, a hynny heb achos da, bydd yr Ysgoloriaeth yn dod i ben.

## Gwobrau Teilyngdod Chwaraeon £500

Os ydych yn rhagori yn eich maes chwaraeon **ar ôl** cyrraedd Prifysgol Aberystwyth, gallech wneud cais ar gyfer Gwobr Teilyngdod Chwaraeon yn eich ail flwyddyn neu flwyddyn astudio ddilynol. £500 yw gwerth y gwobrau ac aelodaeth Blatinwm yn rhad ac am ddim yng Nghanolfan Chwaraeon y Brifysgol am flwyddyn academaidd.

## Ysgoloriaethau Pêl-droed Prifysgol Aberystwyth / Tref Aberystwyth

**£4,000 y flwyddyn a manteision ychwanegol**

Gwahoddir ceisiadau gan ymgeiswyr gwrywaidd o'r DU sy'n gwneud cais i astudio'n llawn amser ar gyfer gradd mewn unrhyw bwnc (israddedig neu uwchraddedig). Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn chwarae i Glwb Pêl-droed Tref Aberystwyth yn Uwch-gynghrair Cymru a hefyd dîm pêl-droed BUCS Prifysgol Aberystwyth pan fo'n briodol.

**RHAID** bod ymgeiswyr wedi cyrraedd safon chwarae yn Uwch-gynghrair Cymru neu gyfatebol o leiaf (Cynghrair Genedlaethol Vanarama yn Lloegr).

Ymhlith y manteision ychwanegol y mae:

- Aelodaeth Blatinwm o Ganolfan Chwaraeon Prifysgol Aberystwyth yn rhad ac am ddim
- Cyfleoedd datblygu hyfforddiant pêl-droed gyda Chlwb Pêl-droed Tref Aberystwyth ac Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth (UM PA)
- Yswiriant meddygol drwy UM PA
- Mynediad at ffisiotherapi Clwb Pêl-droed Tref Aberystwyth
- Citiau gemau a hyfforddiant Clwb Pêl-droed Tref Aberystwyth

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau – 15 Gorffennaf 2019.

Gellir cael hyd i fanylion llawn a'r ffurflen gais ar-lein yma: www.aber.ac.uk/ysgoloriaethau

Mae croeso i ymgeiswyr gysylltu â'r Clwb er mwyn trafod yr Ysgoloriaeth ymhellach: abertownfc@live.co.uk



Ni ellir dal yr Ysgoloriaeth hon ac Ysgoloriaeth Chwaraeon Prifysgol Aberystwyth, ond gellir ei dal gydag unrhyw un o'r gwobrau israddedig eraill a gynigir. Cynghorir ymgeiswyr uwchraddedig i gadarnhau drwy'r Swyddfa Derbyn Graddedigion a fyddai unrhyw wobrau Uwchraddedig yn cael eu heffeithio.



# Ysgoloriaethau Cerdd

**£650 y flwyddyn**

Un o gryfderau Aberystwyth a'r Brifysgol yw'r bywyd cerddorol gwych sydd yma. Nid oes modd gwneud gradd gerddoriaeth yn y Brifysgol mwyach ond rydym yn dal i werthfawrogi pwysigrwydd bwrlwm y gymuned gerddorol. Mae'r Ganolfan Gerdd yn cynnig cyfle i bob myfyriwr i chwarae, dysgu a mwynhau cerddoriaeth ochr yn ochr â'u hastudiaethau.

Rhoddir Ysgoloriaethau Cerdd i gerddorion profiadol a all wneud cyfraniad ymarferol i gerddorfeydd, bandiau, corau ac ensembles eraill y Brifysgol. Cânt eu dyfarnu ar sail clyweliad cystadleuol i fyfyrwyr newydd mewn unrhyw ddisgyblaeth (israddedig neu uwchraddedig) ac fe'u dyfernir am hyd y cwrs.

**Dyma rai o fanteision yr Ysgoloriaethau Cerdd:**

- £650 y flwyddyn (pedair neu fwy o wobrau ar gael bob blwyddyn)
- Aelodaeth yn rhad ac am ddim i holl ensembles y Ganolfan Gerdd neu ensembles cysylltiedig (gan gynnwys cerddorfeydd, bandiau ac ati)
- Cyfle i ddefnyddio adnoddau ymarfer a llyfrgell ac adnoddau priodol eraill y Ganolfan Gerdd yn rhad ac am ddim
- Sicrwydd o lety mewn eiddo a reolir gan y Brifysgol am hyd y cwrs*

** Er mwyn sicrhau eich lle mewn Neuadd, mae'n rhaid i chi wneud cais am lety ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf o fewn y dyddiadau a hysbysebir gan y Swyddfa Lety i fyfyrwyr sy'n dychwelyd.*

## Sut i ymgeisio:

- Rhaid i ymgeiswyr fod wedi ymgeisio i'r Brifysgol a nodi Aberystwyth fel dewis cadarn erbyn y dyddiad cau, sef 15 Mehefin 2019.
- Rhaid cyflwyno ffurflen gais i'r Ganolfan Gerdd erbyn 15 Mehefin 2019.
- Rhaid i ymgeiswyr a gaiff wahoddiad fod ar gael i ddod i glyweliad yn Aberystwyth ar adeg sy'n gyfleus i bawb



**Tom Houghton**
(Fiola)
*BSc Gwyddorau Daear Amgylcheddol*
**Philomusica a'r Band Cyngerdd Ysgoloriaeth Cerdd**

Mae Canolfan Gerdd Aberystwyth wedi cyfrannu mwy at fy ngyrfa yn y brifysgol na rhoi cyfle i mi ddilyn fy hoffter o gerddoriaeth yn unig; rwyf wedi dod yn rhan o'r gymuned gerddorol leol fel oedolyn, sy'n daith y dylai myfyrwyr ei chymryd ond nad yw'n cael ei chrybwyll mor aml â hynny – nid astudio yw popeth.

Wedi dweud hynny, pa ffordd well o gael seibiant o'ch gwaith astudio na cherdded ar hyd y prom yn Aberystwyth i'r Hen Goleg am noson o ymarfer cerddorol?

Mae'r ystod o grwpiau sy'n gysylltiedig â'r ganolfan gerdd yn golygu y gallwch deilwra eich dyfodol cerddorol yn seiliedig ar yr hyn yr ydych yn ei fwynhau. Yn bersonol, Philomusica sy'n mynd â'm bryd. Rydym yn treulio'r semester yn dysgu ac ymarfer gweithiau cerddorfaol cyffrous, ac wedyn yn eu perfformio yn y Neuadd Fawr yng Nghanolfan y Celfyddydau.

Mae cerddoriaeth yn ffordd dda o ddatblygu cylchoedd cymdeithasol a mireinio eich sgiliau. Eich dewis chi yw beth rydych chi'n ei wneud yn y brifysgol, ac mae dewis rhoi amser i fireinio eich talent yn gallu newid rhywbeth a oedd yn orchwyl diflas yn yr ysgol i fod yn hobi pleserus fel oedolyn.

- Mae'r Ysgoloriaethau ar gael i fyfyrwyr sydd fel arfer yn byw yn y DU, yr UE neu'n rhyngwladol, ac sy'n offerynwyr neu'n gantorion cymwys yn unol â'r hyn a nodir yn y rheoliadau.

I'r ymgeiswyr sydd am gael penderfyniad cynnar ar eu cais, mae cyfleoedd i gael clyweliad yn y Diwrnod Agored yng nghanol y flwyddyn. Byddwn yn cysylltu â'r ymgeiswyr yn fuan ar ôl y dyddiad cau i drafod dyddiadau'r clyweliadau.

Mae ffurflenni cais, y rheoliadau'n llawn a rhagor o fanylion am yr Ysgoloriaethau ar gael ar ein gwefan www.aber.ac.uk/cy/music neu drwy gysylltu â'r Ganolfan Gerdd: music@aber.ac.uk Ffôn: 01970 622685

## Amodau

- Rhaid i ddeiliaid Ysgoloriaethau fod yn aelodau gweithgar o Ganolfan Gerdd Prifysgol Aberystwyth, ac yn aelodau o ddau grŵp cerddorol yn unol â rheoliadau'r Ysgoloriaethau a thrwy drefniant â'r Cyfarwyddwr Cerdd.
- Mae'n rhaid wrth bresenoldeb rheolaidd ac ymroddedig yn yr ymarferion a'r perfformiadau.
- Bydd deiliaid Ysgoloriaethau'n helpu i hybu proffil cerddoriaeth y Brifysgol ac mae'n bosib y gofynnir iddynt helpu â chynlluniau eraill i hybu'r Brifysgol (e.e. Diwrnodau Agored, Diwrnodau Ymweld) lle bo hynny'n briodol.
- Sylwer na wneir taliadau yn ystod blynyddoedd neu dymhorau a dreulir dramor, blynyddoedd mewn gwaith, blynyddoedd rhyng-gwrs, blynyddoedd sy'n cael eu hail-wneud ac ati.
- Rhaid i fyfyrwyr fod yn astudio'n llawn amser.
- Mae'n bosibl i uwchraddedigion sy'n dal Ysgoloriaeth barhau i elwa cyhyd â'u bod yn fyfyrwyr llawn amser.
- Gellir dal Ysgoloriaeth Gerdd ar y cyd ag unrhyw wobr israddedig arall.



**Laura Dixon**
(Offer Taro)
*MPhys Astroffiseg*
**Philomusica a'r Band Cyngerdd**
**Ysgoloriaeth Cerdd**

Mae fy mherthynas â cherddoriaeth bob amser wedi bod ynglŷn â chael hwyl a dysgu rhywbeth newydd. Yn y brifysgol, rwy'n defnyddio cerddoriaeth fel seibiant o'm cwrs i ymlacio a chael hwyl yn gwneud rhywbeth rwy'n ei garu. Mae'r Band Cyngerdd yn caniatáu i mi chwarae llawer o ddarnau hwyliog sydd â llawer o amrywiaeth ac mae Philomusica yn caniatáu i mi archwilio darnau clasurol na fuaswn wedi ystyried gwrando arnynt na'u chwarae. Rhai o uchafbwyntiau'r tair blynedd diwethaf oedd chwarae 'The Planets' gan Holst, ac agorawd Kabalevsky i 'Colas Breugnon" yn Philomusica, yn ogystal â 'The Jungle Book' a 'Gwŷr Harlech' yn y Band Cyngerdd.

Mae'r ochr gymdeithasol o fod yn rhan o'r Ganolfan Gerdd wedi galluogi i mi gyfarfod pobl na fyddwn wedi dod ar eu traws fel arall, sy'n beth da, oherwydd maen nhw bellach yn rhai o'm ffrindiau pennaf.



# Bwrsariaethau i'r rhai sy'n Gadael Gofal, Gofalwyr Ifanc a grwpiau cysylltiedig

Mae Prifysgol Aberystwyth yn ymwybodol o'r anhawsterau ariannol a wynebir gan fyfyrwyr sy'n mynd ymlaen i addysg uwch a fu mewn gofal neu'r rhai a chanddynt gyfrifoldebau gofalu, neu sydd wedi'u dieithrio oddi wrth eu teuluoedd neu eu gwarcheidwaid ar ddiwedd eu harddegau. Er mwyn lleddfu'r pwysau ariannol, mae'n dda gennym gynnig y canlynol:

Gall myfyrwyr sy'n datgan yn eu cais UCAS eu bod mewn gofal, yn ofalwr ifanc cydnabyddedig, neu wedi'u dieithrio'n ddiweddar oddi wrth eu teulu/gwarcheidwad oherwydd meini prawf ehangu cyfranogiad eraill fod yn gymwys i dderbyn y taliad ychwanegol hwn (p'un a ydynt yn derbyn bwrsariaeth neu ysgoloriaeth arall gennym ai peidio).

## Bwrsariaeth Llawn*

**- £1,500 y flwyddyn***

Rhaid i ymgeiswyr allu dangos:

- eu bod wedi bod mewn gofal maeth neu ofal cyhoeddus arall am gyfnod di-dor o 6 mis neu fwy ar ôl eu pen-blwydd yn 14, a rhaid iddynt fod o dan 25 adeg dechrau eu hastudiaethau addysg uwch, a chanddynt Gynllun Llwybr lle bo hynny'n briodol,
- NEU eu bod yn ofalwr ifanc cydnabyddedig i riant neu frawd neu chwaer neu eu perthynas agosaf, yn dioddef caledi ariannol ac o dan 21 adeg dechrau eu hastudiaethau addysg uwch,
- NEU eu bod wedi'u dieithrio oddi wrth eu teulu neu warcheidwad/gwarcheidwaid ar ôl eu pen-blwydd yn 16, yn annibynnol ac yn hunangynhaliol, yn dioddef caledi ariannol, ac o dan 21 adeg dechrau eu hastudiaethau addysg uwch.

**Seilir y cyfanswm hwn ar gostau llety tybiedig dros gyfnodau gwyliau, costau ychwanegol eitemau ar gyfer byw'n annibynnol, er enghraifft dillad gwely, llestri, cyllyll a ffyrc ac ati (a all fod ar gael pan fyddwch yn cyrraedd), ynghyd â llyfrau cwrs a deunyddiau astudio eraill. Rhagdybir y bydd myfyrwyr yn dod o hyd i waith yn y gwyliau i dalu costau byw ychwanegol.*

## Bwrsariaeth Rannol**

**- £800 y flwyddyn****

Rhaid i ymgeiswyr allu dangos:

- eu bod wedi bod mewn gofal maeth neu ofal cyhoeddus arall am gyfnod di-dor o 3 i 6 mis yn 16 mlwydd oed neu'n hŷn, a bod hynny wedi effeithio ar eu haddysg uwchradd, a rhaid iddynt fod o dan 25 adeg dechrau eu hastudiaethau addysg uwch.

*** Seilir y cyfanswm ar ddealltwriaeth ei bod yn debygol y bydd tarfu difrifol wedi bod ar addysg pobl ifanc a fu mewn gofal yn achlysurol neu am gyfnod o 3-6 mis, ynghyd ag ar agweddau eraill ar eu bywydau. Byddai'r fwrsariaeth hon yn fodd iddynt fyw yn y Brifysgol am ran o gyfnod y gwyliau a gallai olygu eu bod yn gallu bod yn annibynnol pe byddent yn dymuno hynny.*

## Ar gyfer y ddwy wobr:

1. Dyfernir y bwrsariaethau i unrhyw israddedigion cymwys amser-llawn o'r DU sy'n cyflawni telerau'r cynnig, heb ystyried y flwyddyn mynediad, ac y mae'n ychwanegol i unrhyw fath arall o gymorth statudol neu sefydliadol.

2. Mae'r Fwrsariaeth i'w dal am gyfnod cyfan y cwrs astudio (am hyd at 4 mlynedd) ac mae'n amodol ar gynnydd academaidd boddhaol.

3. Dylid ymgeisio drwy lenwi ffurflen fer a'i chyflwyno ynghyd â dogfennau ategol gan y gwasanaethau cymdeithasol, darparwr yn y trydydd sector neu unigolyn neu gorff perthnasol arall (wedi'u cwblhau ym mis Medi yn y flwyddyn pan fydd y myfyriwr yn cael ei dderbyn neu, os yw hynny'n briodol, drwy drafodaeth, yn ystod blwyddyn gyntaf yr astudiaethau) a chyfarfod byr â'r "Unigolyn Enwebedig" ym Mhrifysgol Aberystwyth (gweler y manylion cyswllt isod).

Yn ogystal â chymorth ariannol, cynigir nifer o fesurau cymorth eraill hefyd i'r rhai sy'n gadael gofal ac eraill, gan gynnwys:

- Gwarant o lety mewn Neuadd a reolir gan y Brifysgol trwy gydol y cwrs. *(Er mwyn sicrhau eich lle mewn llety, yn cynnwys dros yr haf, mae'n rhaid i chi wneud cais o fewn y dyddiadau a hysbysebir gan y Swyddfa Lety i fyfyrwyr sy'n dychwelyd).*
- Mentor Cynllun Ffordd Hyn
- Cefnogaeth ar Ddiwrnodau Agored ac Ymweld

Cysylltwch â'r
Ganolfan Ehangu Cyfranogiad,
a Chynhwysiant Cymdeithasol
i gael rhagor o fanylion:

Ffôn: 01970 621890;
Ebost: wpsi@aber.ac.uk

Gellir dal Bwrsariaethau i'r rhai sy'n Gadael Gofal, Gofalwyr Ifanc a grwpiau cysylltiedig a bwrsariaethau cysylltiedig ar y cyd ag unrhyw wobr arall.



# Ysgoloriaethau Astudio trwy'r Gymraeg

Mae 98% o raddedigion Prifysgol Aberystwyth sydd wedi astudio modiwlau cyfrwng Cymraeg mewn gwaith neu astudiaeth bellach chwe mis wedi iddynt raddio.*

Er mwyn galluogi rhagor o'n myfyrwyr i fanteisio ar y cyfle i ddysgu sgiliau sy'n werthfawr i'r gweithle mae Aberystwyth yn cynnig ysgoloriaethau i'w cynorthwyo i ddilyn rhan o'u cwrs drwy'r Gymraeg.

Dyfernir Ysgoloriaethau'n awtomatig i fyfyrwyr cymwys. Bydd manylion y modiwlau cymwys ar gael wrth gofrestru ar ddechrau pob blwyddyn academaidd.

## Uwch Ysgoloriaeth

**£250 y flwyddyn**


Ar gyfer myfyrwyr sy'n astudio o leiaf 40 credyd drwy'r Gymraeg bob blwyddyn. Bydd angen cofrestru ar fodiwl(au) a gynigir yn gyfan gwbl neu yn rhannol drwy'r Gymraeg ar gyrsiau cymwys.

## Ysgoloriaeth Annog

**£100 y flwyddyn**

Ar gyfer myfyrwyr sy'n astudio rhwng 5 credyd a 39 credyd drwy'r Gymraeg bob blwyddyn. Bydd angen cofrestru ar fodiwl(au) a gynigir yn gyfan gwbl neu yn rhannol drwy'r Gymraeg ar gyrsiau cymwys.

•*Arolwg o Gyrchfannau Ymadawyr Addysg Uwch (DLHE) 2017*



# Ysgoloriaethau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Corff annibynnol yw'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, sy'n gyfrifol am gynllunio a chyllido darpariaeth cyfrwng Cymraeg o fewn y sector addysg uwch gyfan mewn partneriaeth â holl brifysgolion Cymru.

Diben y cynllun Ysgoloriaethau yw cynnig cymorth ariannol i fyfyrwyr sy'n dymuno astudio trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae 3 lefel o Ysgoloriaeth, sy'n dibynnu ar y nifer o gredydau sy'n cael eu hastudio trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n bosibl dal Ysgoloriaeth o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol ar y cyd gydag unrhyw wobrau o Brifysgol Aberystwyth.


## Ysgoloriaeth William Salesbury

**£5,000 dros 3 blynedd**

Mae'r Ysgoloriaeth yn agored i fyfyriwr sy'n bwriadu astudio'r cwrs yn gyfangwbl trwy gyfrwng y Gymraeg. Gweler gwefan y Coleg i weld sut mae gwneud cais.

## Prif Ysgoloriaeth £1,000 y flwyddyn

Mae'r cynllun Prif Ysgoloriaethau ar gael i fyfyrwyr sy'n astudio cyrsiau gradd sy'n cynnwys o leiaf 240 credyd o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Er mwyn derbyn yr ysgoloriaeth , bydd angen astudio o leiaf 80 credyd drwy'r Gymraeg ym mhob blwyddyn. Gwerth yr ysgoloriaethau hyn yw £1000 y flwyddyn (£3000 dros dair blynedd; lle mae cwrs gradd yn cynnwys tair blynedd o astudio yn Aberystwyth a blwyddyn dramor, ni fydd taliad yn y flwyddyn dramor). Mae rhestr o gyrsiau gradd cymwys ym Mhrifysgol Aberystwyth ar gael ar safle gwe'r Coleg: www.colegcymraeg.ac.uk



**Cadi Dafydd**
*Llenyddiaeth a Hanes Cymru*
**Gwobr Teilyngdod a Phrif Ysgoloriaeth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol**
Llan Ffestiniog

Roeddwn i a fy nheulu yn hynod o falch pan ddysgais fy mod wedi ennill Gwobr Teilyngdod a hefyd Ysgoloriaeth y Coleg Cymraeg. Bydd yr arian o fudd mawr i mi wrth helpu gyda chostau llety a phrynu deunyddiau addysgol megis llyfrau. Roedd mor syml i ymgeisio ac mae'r gwobrau werth ei gael gan fy mod mewn gwell sefyllfa ariannol yma nag mewn prifysgol arall.

**Sut i wneud cais**

Rhaid ichi ymaelodi â'r Coleg a llenwi ffurflen gais ar wahân ar gyfer yr Ysgoloriaethau oddi ar wefan y Coleg, gan sicrhau eich bod wedi llenwi atodiad Prifysgol Aberystwyth. Caiff y Prif Ysgoloriaethau eu dyfarnu ar sail canlyniadau arholiadau'r Ysgoloriaeth Mynediad Prifysgol Aberystwyth.

Mae ffurflen gais ar gael ar safle gwe'r Coleg. Rhaid ei dychwelyd i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol erbyn y dyddiad a hysbysebwyd ganddynt.

## Ysgoloriaethau Cymhelliant

**£500 y flwyddyn**

Mae'r cynllun Ysgoloriaethau Cymhelliant ar gael i fyfyrwyr sy'n astudio cyrsiau gradd sy'n cynnwys o leiaf 120 credyd o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn pwnc cymwys. Er mwyn

derbyn yr ysgoloriaeth bydd angen astudio o leiaf 40 credyd drwy'r Gymraeg ym mhob blwyddyn.

Gwerth yr ysgoloriaethau hyn yw £500 y flwyddyn (£1,500 dros dair blynedd); (pan fo cwrs yn cynnwys astudio am dair blynedd yn Aberystwyth a blwyddyn dramor/blwyddyn o brofiad gwaith, ni wneir taliad yn y flwyddyn honno).

Mae rhestr o gyrsiau gradd cymwys ym Mhrifysgol Aberystwyth ar gael ar safle gwe'r Coleg. Dyfernir yr ysgoloriaethau ar sail ffurflen gais y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

**Sut i wneud cais**

Rhaid ichi ymaelodi â'r Coleg i wneud cais. Mae ffurflen gais ar gael ar safle we'r Coleg. Rhaid ei dychwelyd i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol erbyn y dyddiad a nodwyd ganddynt.

Gweler: www.colegcymraeg.ac.uk/cy
www.aber.ac.uk/ysgoloriaethau

## Cymdeithas y Cyn-fyfyrwyr, Aberystwyth (Cangen Caerdydd)

**hyd at £1,500**

Grant gwerth rhwng £500 ac £1,500, sy'n daladwy mewn dau swm cyfartal ym mlwyddyn academaidd gyntaf y myfyriwr yn Aberystwyth. Croesewir ceisiadau gan fyfyrwyr sy'n ddisgyblion mewn ysgol neu goleg yn ardal de-ddwyrain Cymru.

Cysylltwch â'r Swyddfa Dderbyn Israddedig am ffurflen gais:
Ebost: is-raddedig@aber.ac.uk
Ffôn: 01970 622021

Bydd angen dychwelyd y ffurflen gais erbyn diwedd mis Mai yn y flwyddyn mynediad i'r Brifysgol.

Mae'r wybodaeth ddiweddaraf ar gael ar ein gwefan:
www.aber.ac.uk/ysgoloriaethau



# Cyflogaeth a Chymorth Ychwanegol

## GwaithAber

Mae'r cyfleoedd am waith rhan-amser, achlysurol drwy GwaithAber yn amrywio o arlwyo a gwaith gweinyddol, i rolau llysgenhadol a mwy. Yn ystod y tymor, os oes gwaith ar gael, gallwch ddewis gweithio hyd at 15 awr yr wythnos, gyda rhagor o oriau'n bosibl yn ystod y gwyliau. Gallai'r gwaith fod wedi'i leoli ar unrhyw un o gampysau'r Brifysgol gan gynnwys yr Hen Goleg a'n Ffermydd.

Yr hyn sy'n wych am y cynllun yw eich bod yn gallu derbyn gwaith sy'n cyd-fynd â'ch amserlen chi, felly nid yw'n tarfu ar eich astudiaethau, ond fe fyddwch chi'n parhau i feithrin profiad a chael arian ychwanegol.

www.aber.ac.uk/cy/hr/gwaithaber

## Y Gwasanaeth Cyngor, Gwybodaeth ac Arian

Mae'r Gwasanaeth Cyngor, Gwybodaeth ac Arian o fewn y Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr yn rhoi cyngor arbenigol am amrywiaeth o faterion ariannol. Bydd modd i'n hymgynghorwyr myfyrwyr, sydd wedi'u hachredu gan NASMA (Cymdeithas Genedlaethol Cynghorwyr Ariannol Myfyrwyr) wneud yn siŵr eich bod yn cael popeth o fewn eich hawliau gan eich corff cyllido. Gallant hefyd roi cyngor ar sut i reoli eich arian yn fwy effeithiol ac efallai y bydd modd iddynt roi cymorth ariannol ar gyfer amgylchiadau annisgwyl.

www.aber.ac.uk/cy/student-support




Aberystwyth Arts Centre



## Gwybodaeth Bwysig i'w Nodi:

1. Mae'n bosibl dal Ysgoloriaeth Mynediad neu Wobr Teilyngdod ynghyd ag unrhyw un, neu bob un, o'n gwobrau eraill.
2. Mae i bob Ysgoloriaeth a Bwrsariaeth eu telerau ac amodau eu hunain.
3. Bydd myfyrwyr sy'n gohirio mynediad yn derbyn Ysgoloriaethau/Bwrsariaethau ar y lefel a hysbysebwyd ar gyfer y flwyddyn gais.
4. Bydd y taliadau'n para tra bydd myfyriwr yn dal y wobr yn amodol â bodloni'r rheoliadau (os bydd blwyddyn yn cael ei hailwneud ni wneir taliadau, ac eithrio Bwrsariaeth Aberystwyth).
5. Dim ond yn ystod y blynyddoedd pan fo'r myfyriwr yn talu ffioedd llawn y caiff taliadau Ysgoloriaethau a Bwrsariaethau eu gwneud (ni fydd taliadau'n cael eu gwneud yn ystod blynyddoedd tramor fel rhan o'r cwrs neu yn ystod blynyddoedd mewn diwydiant).
6. Fel arfer, gwneir taliadau ddwywaith y flwyddyn yn syth i gyfrifon banc y myfyrwyr. Cyfrifoldeb y myfyrwyr unigol yw darparu manylion dilys y banc pan ofynnir iddynt amdanynt.
   Os nad ydynt yn rhoi'r manylion hynny erbyn y dyddiad penodedig, ni fydd yr arian yn cael ei dalu. Os na ddarperir manylion cyfrif banc erbyn y dyddiad penodedig, ni fydd gan ddeiliad y grant hawl i dderbyn taliad y flwyddyn honno. Gall taliadau blynyddoedd diweddarach barhau os bydd deiliad y grant yn darparu manylion ei gyfrif banc erbyn y dyddiadau penodedig ar gyfer y blynyddoedd hynny.
7. Bydd taliadau i fyfyrwyr sy'n tynnu'n ôl dros dro yn ailgychwyn o ddechrau'r tymor llawn nesaf pan ailgychwynnant ar eu hastudiaethau (ni fydd unrhyw daliadau sy'n weddill o'r tymor pan dynnant yn ôl yn cael eu talu).
8. Mae'n bwysig cofio os y byddwch mewn dyled i'r Brifysgol, y bydd taliadau'r Ysgoloriaeth neu Fwrsariaeth yn cael eu dal yn ôl a'u defnyddio yn erbyn y ddyled.
9. Os bydd myfyriwr yn tynnu'n ôl o'u hastudiaethau am byth cyn Rhagfyr 1af, bydd y Swyddfa Gyllid yn hawlio'r cyfan o'r taliad cyntaf yn ôl. Os bydd myfyriwr yn tynnu'n ôl am byth rhwng Rhagfyr 1af a Mawrth 2il, bydd y Swyddfa Gyllid yn hawlio yn ôl y cyfan o'r ail daliad. O dan yr amgylchiadau hyn, os nad yw'r symiau hyn yn cael eu had-dalu, mae'n bosib y bydd yr achos yn cael ei gyfeirio at asiantaeth gasglu dyledion y Brifysgol.
10. Mae'r wybodaeth a geir yn y llyfryn hwn yn berthnasol i fyfyrwyr a fydd yn ymgymryd â'u hastudiaethau yn Aberystwyth yn unig, ac nid yw'n berthnasol i fyfyrwyr sy'n astudio rhaglenni breiniol neu raglenni wedi'u dilysu a gyflwynir gan bartneriaid.

# Ysgoloriaethau, Bwrsariaethau a Gwobrau 2019

Rydym yn cynnig ystod hael o Ysgoloriaethau a Bwrsariaethau i gefnogi'ch costau astudio a byw. Mae'n bosibl dal nifer o'r gwobrau hyn gyda'u gilydd i wneud eich pecyn ariannol CHI'N fwy gwerthfawr.

| Enw'r Wobr | Werth | Pwy all ymgeisio? | Meini Prawf | Pryd i wneud cais | Ffurflen ychwanegol |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgoloriaethau Mynediad**<br><br>**Gwobrau Teilyngdod** | • Hyd at £2,000 y flwyddyn<br>• Cynnig Gostyngol<br>• Sicrwydd o lety mewn Neuadd Breswyl neu eiddo a weinyddir gan y Brifysgol trwy gydol y cwrs<br><br>• £1,000 yn y flwyddyn gyntaf<br>• Cynnig Gostyngol | Ymgeiswyr Israddedig | • Rhaid sefyll dau arholiad mewn dau bapur gwahanol<br>• Cynhelir yr arholiadau ar 29 Ionawr a rhaid eu sefyll yn y Brifysgol neu mewn ysgol neu goleg yn y DU, neu mewn canolfan arholi archrededig | Erbyn 18 Ionawr (DU) neu 15 Ionawr (UE/tramor) | Oes, ac fe allwch ymgeisio ar-lein |
| **Ysgoloriaethau Rhagoriaeth Academaidd** | • £2,000 yn y flwyddyn gyntaf | Ymgeiswyr o'r DU/UE | • Ymgeiswyr sy'n rhagori yn eu hastudiaethau cyn dechrau yn y Brifysgol | Dim angen ymgeisio | Nac oes |
| **Bwrsariaeth Rashid Domingo** | • Hyd at £12,000 | Rhaid bod wedi mynd i ysgol uwchradd/ coleg yng Nghymru am o leiaf 3 blynedd | • Ymgeiswyr ar gyfer cyrsiau Ffiseg neu IBERS sy'n gallu dangos potensial academaidd ac angen ariannol | Erbyn 31 Ionawr | Oes (a chyfweliad byr) |
| **Ysgoloriaeth Emily Price** | • £500 | Ymgeiswyr benywaidd ar gyfer Mathemateg/ Ffiseg | • Rhaid i ymgeiswyr dangos addewid academaidd | Erbyn 31 Ionawr | Oes |
| **Gwobrau Adrannol** | • £250 - £500 y flwyddyn | Ymgeiswyr ar gyfer Cyfrifiadureg, Ffiseg, a Mathemateg | • Rhaid dal Ysgoloriaeth Mynediad neu fod wedi cael graddau penodol yn yr arholiadau Safon Uwch er mwyn cael eich hystyried | Ystyrir ymgeiswyr yn awtomatig | Nac Oes |
| **Bwrsariaethau Aberystwyth** | • £500 y flwyddyn | Myfyrwyr o'r DU/UE | • Ar gyfer myfyrwyr sy'n dod o aelwydydd ag incwm yn is na £35,000 (cyfyngiadau yn berthnasol) | Dim angen ymgeisio | Nac Oes |

| Enw'r Wobr | Werth | Pwy all ymgeisio? | Meini Prawf | Pryd i wneud cais | Ffurflen ychwanegol |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgoloriaethau Chwaraeon** | • £500 y flwyddyn<br>• Aelodaeth Platinwm yng Nghanolfan Chwaraeon y Brifysgol<br>• Sicrwydd o lety mewn Neuadd Breswyl neu eiddo a weinyddir gan y Brifysgol trwy gydol y cwrs | Ymgeiswyr o'r DU/UE yn cynnwys uwchraddedigion | • Rhaid gwneud cais i Aberystwyth erbyn 30 Mehefin, a nodi Aberystwyth yn ddewis 'Cadarn'<br>• Rhaid cyflawni holl delerau'r cynnig yn llawn | Erbyn 30 Mehefin | Oes, neu fe allwch ymgeisio ar-lein |
| **Ysgoloriaethau Pêl-droed Prifysgol Aberystwyth/ Tref Aberystwyth** | • £4,000 y flwyddyn ynghyd â buddiannau ychwanegol | Ymgeiswyr gwrywaidd o'r DU yn cynnwys uwchraddedigion | • Rhaid fod gan ymgeisywr brofiad o chwarae pêl-droed i lefel Prif Gynghrair Cymru neu lefel cyfatebol | Erbyn 15 Gorffennaf | Oes |
| **Ysgoloriaethau Cerdd** | • Hyd at £650 y flwyddyn (am gyfnod o hyd at 3 blynedd)<br>• Aelodaeth am ddim o'r Ganolfan Cerdd<br>• Sicrwydd o lety Brifysgol am gyfnod y Fwrsariaeth | Pawb yn cynnwys uwchraddedigio | • Dyfernir ar sail clyweliad cystadleuol ar offeryn cerddorfaol | Derbyn 15 Mehefin | Oes |
| **Bwrsariaethau Gadael Gofal, Gofalwyr Ifanc a grwpiau cysylltiedig** | • Bwrsariaeth Lawn - £1,500 y flwyddyn<br>• Bwrsariaeth Rannol - £800 y flwyddyn | Myfyrwyr o'r DU | • Gweler yr adran berthnasol o'r llyfryn hwn ar gyfer cyfyngiadau oedran a thystiolaeth<br>• Rhaid cyflawni holl delerau'r cynnig yn llawn | Ar ôl derbyn gynnig cadarn, neu yn ystod flwyddyn gyntaf y cwrs | Oes (a chyfarfod) |
| **Ysgoloriaethau Astudio trwy'r Gymraeg** | • Uwch Ysgoloriaeth - £250 y flwyddyn<br>• Ysgoloriaeth Annog - £100 y flwyddyn | Ymgeiswyr cyfrwng Cymraeg | • Myfyrwyr ar gyrsiau cymwys sy'n astudio nifer penodedig o gredydau trwy gyfrwng y Gymraeg | Ystyrir ymgeiswyr yn awtomatig | Nac oes |
| **Ysgoloriaethau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol** | • £1,500 i £5,000 | Ymgeiswyr cyfrwng Cymraeg | • Gweler adran berthnasol y llyfryn hwn | Dyddiadau gwahanol yn dibynnu ar y wobr | Rhaid ymaelodi â'r Coleg Cymraeg |

- Prifysgol y Flwyddyn ar gyfer Ansawdd Dysgu
  (*The Times and Sunday Times Good University Guide 2018*)
- 91% a Gorau yng Nghymru am Fodlonrwydd Myfyrwyr *(ACF 2017)*
- Aur i Brifysgol Aberystwyth yn Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu a Chanlyniadau Myfyrwyr 2018
- Yn y 10 uchaf am Brifysgol y Flwyddyn
  (*What Uni? Student Choice Awards 2017*)
- Gwarant o lety yn y flwyddyn gyntaf
- Aelodaeth Blatinwm rad ac am ddim yng Nghanolfan Chwaraeon y Brifysgol os ydych chi'n byw yn llety'r Brifysgol
- Cartref Llyfrgell Genedlaethol Cymru
- Bywyd myfyriwr bywiog




Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Marchnata a Denu Myfyrwyr**
**Adeilad Cledwyn, Campws Penglais, Prifysgol Aberystwyth, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3DD**

Ffôn: **(01970) 622065**
E-bost: **ymholiadau@aber.ac.uk**
Gwefan: **www.aber.ac.uk/ysgoloriaethau**


FfRhA Aur

Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu

1018 - 23498